# Cynllun Cyflawni'r Sectorau Sylfaenol, Mawrth 2021 i Gorffennaf 2021

| | Ymyriadau Polisi i gryfhau'r ES | Y canlyniadau hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon | Cynigion ar gyfer Rhaglen ES y Gweinidog nesaf | Cynigion gweithredu i'w harchwilio yn ystod chwe mis cyntaf gweinyddiaeth newydd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Cronfa Her i arbrofi â ffyrdd newydd o daclo problemau sylfaenol yn yr ES. | • Sefydlu Cronfa Her o £4.5m a chyhoeddi'r broses ymgeisio.<br>• 52 o brosiectau wedi'u helpu mewn amrywiaeth o sectorau a chategorïau, yn arbennig caffael, gofal cymdeithasol, bwyd ac adfywio.<br>• Trafod â phrif swyddogion polisi LIC i gefnogi prosiectau'r Gronfa Her a gwerthuso'u heffaith.<br>• Penodi Cynnal Cymru yn Gorff 2020 i sefydlu Cymuned Ymarfer ac i helpu i ledaenu ac ehangu prosiectau'r Gronfa Her wedi iddynt gau.<br>• Gwerthuso'r prosiectau sydd wedi'u cynnal i weld a fyddan nhw'n debygol o gael eu cwblhau yn unol ag amodau'r cynnig grant erbyn diwedd Mawrth 21.<br>• Gan ddefnyddio adnoddau gweddilliol y Gronfa Her, ariannwyd nifer o restrau wrth gefn o brosiectau sydd â'r gallu i gwblhau'r prosiect erbyn diwedd Mawrth 2021: mae'r rhain yn cynnwys ymestyn prosiect Cyfle a phrosiectau newydd a gychwynnwyd ar gyfer Amaethyddiaeth yr Amgylchedd Rheoledig, Canolfan Cenedl y Goedwig, ymchwil Cynllun Gweithredu Strategaeth Bwyd a phrosiect pecyn cymorth 'Can Do'.<br>• Prosiectau y mae arweinwyr polisi wedi'u dewis i'w 'Lledaenu a'u Hehangu'<br>• Cyhoeddi astudiaethau achos Cronfa Her y Economi Sylfaenol (CHES). | Cyngor wedi'i ddatblygu i argymell sut i wario £3m y gyllideb ES.<br><br>Bydd y Gweinidog nesa'n cytuno sut i ddyrannu'r arian ar gyfer y blaenoriaethau 'Lledaenu ac Ehangu'. | Cyhoeddi'r broses gyllido.<br><br>Gweithio gyda rhanddeiliaid i wneud yr arfer gorau'n 'Fusnes Fel Arfer' e.e. ymgorffori egwyddorion prosiectau 'Gallu Gwneud' o fewn y rhaglenni buddsoddi sydd â chysylltiadau penodol â'r Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau parhad y Gymuned Ymarfer.<br>• Helpu prosiectau CHES i gael yr arian ac i gwblhau<br>• Llunio adroddiadau prosiectau unigol a CHES, a chytuno arnynt, i fwydo’r rhaglen lledaenu ac ehangu | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Caffael Blaengar: defnyddio grym caffael/prynu'r sector cyhoeddus i gefnogi'r ES, Gwerth Cymdeithasol/Buddion Cymunedol a Datgarboneiddio. | • Defnyddio'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i helpu Llywodraeth Cymru â'i chynllun cyfun i annog cyrff sy'n aelodau o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs) i ddatblygu cynlluniau caffael blaengar i wario arian yn lleol.<br>• Gweithio gyda rhanddeiliaid i asesu cynlluniau gweithredu'r PSB.<br>• Edrych ar wariant caffael hanesyddol ac arfaethedig i weld a oes cyfleoedd i ddenu busnesau lleol i dendro am y gwaith hwn, gyda chymorth Busnes Cymru a Diwydiant Cymru i chwalu unrhyw rwystrau.<br>• Ystyried cyfleoedd i'r ES elwa ar gynlluniau buddsoddi adrannol.<br>• Ystyried sut gall y Nodyn Polisi newydd ar Gaffael ynghylch cadw contractau ar gyfer BBaChau a hysbysebion rhanbarthol helpu'r ES.<br><br>• Gweithio i bennu 5 categori gwariant lleol tymor hir/canolig.<br>• Sicrhau bod y 5 categori gwariant yn ymgorffori amodau cyflogaeth deg.<br>• Datblygu cynllun i weithio â phartneriaid/cyrff angori a rhannu gwybodaeth i nodi bylchau mewn cyflenwadau ac ystyried ffyrdd gwahanol o ddatblygu'r economi o fewn rhanbarthau fydd yn cyfrannu at helpu busnesau sefydlog a llwyddiannus i dyfu, gyda phwyslais ar werth cymunedol a chymdeithasol.<br><br>• Ystyried cynigion ar gyfer troi hyn yn weithredu mesuradwy, gyda ffrydiau cymorth penodol i fusnesau. | Cytuno ar gynllun ar gyfer gweddill rhaglen CLES i gynnal ail gyfnod fydd yn canolbwyntio ar gynhyrchu lleol yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu.<br><br>Gweithio gyda phrif randdeiliaid i ddatblygu cynllun i gynyddu gwariant lleol 5 categori gwariant yn y tymor canolig/hir.<br><br>Ystyried sut y gall pecynnau cymorth i fusnesau wella'r cymorth i fusnesau/ES gan helpu troi micro- | Datblygu opsiynau ar gyfer ymgorffori gwaith blaenorol CLES fel gwaith 'busnes fel arfer' LIC a'r sector cyhoeddus. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Defnyddio sefydliadau angori allweddol yn y sector cyhoeddus i ddatblygu gwybodaeth a rennir gyda chadwyni cyflenwi yng Nghymru, gyda chymorth arweinwyr a defnyddwyr prynu categorïau allweddol i chwilio am gyfleoedd i:<br>➢ adolygu cyfleoedd i wario'n lleol, yn enwedig lle roedd gwariant ofer yn cyd-fynd â gwendidau yn yr economi leol;<br>➢ nodi cyfleoedd posibl yn y contractau fydd yn cael eu gosod o fis Mawrth 2021;<br>➢ ystyried a oes angen am raglenni cymorth wedi'u targedu i wella tendro a chonsortia adeiladu. | fusnesau'n BBaChau llwyddiannus.<br><br>Taclo'r hyn sy'n rhwystro busnesau bach a chanolig rhag cystadlu am gontractau cyhoeddus (e.e. Cymru gyfan).<br><br>Adolygu'r cymorth a roddir i fusnesau o Gymru all cyflawni contractau cyhoeddus a llenwi bylchau cyflenwi a chaniatáu i sefydliadau angori yn y sector cyhoeddus wneud mwy i siapio sectorau e.e. gweithgynhyrchu | |

Cynllun Cyflawni'r Sectorau Sylfaenol, Mawrth 2021 i Gorffennaf 2021

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | Y cyfleoedd a ddaw o ddiwygio'r drefn Gaffael | • Cynllunio cyfeiriad y diwygiadau i'r drefn Gaffael yng Nghymru. | Ystyried y cyfleoedd a ddaw i'r ES yn sgil diwygio'r drefn Gaffael. | |
| 4 | Gwneud 'Swyddi Gwell yn Nes Adre' yn rhan o fusnes fel arfer pob rhan o Lywodraeth Cymru | Gan gymryd y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen 'Gwell Swyddi yn Agosach at Gartref' a gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi'r potensial ar gyfer prif ffrydio i mewn i fusnes fel arfer, bydd hyn yn cynnwys rhaglen Fwyd Sir Fynwy er mwyn deall y dirwedd gynyddol i ddylanwadu ar ddatblygiad graddol, dull graddadwy i gefnogi'r sector bwyd. | Cael rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun i wneud 'Swyddi Gwell yn Nes Adre' yn rhan o'n 'busnes fel arfer' i sicrhau bod ein hymyriadau polisi ac adnoddau'n helpu i greu gwaith ystyrlon mewn cymunedau â lefelau uchel o ddiweithdra. | Gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu beth yw eu gallu a'u capasiti a pha gymorth sydd ei angen, i roi'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth Swyddi Gwell yn Nes Adref ar waith. |
| 5 | Adeiladu:<br>Datblygu camau blaenoriaeth a dechrau ar ddatblygu Cynllun Gweithredu ar Adeiladu sy'n gyson â Datganiad Polisi Caffael Cymru. | • Sefydlodd grŵp sector adeiladau ac mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid i drafod a nodi blaenoriaethau'r diwydiant adeiladu, gan gynnwys datblygu piblinell gontractio hir, sefydlu rhwydwaith cysylltiadau o arbenigwyr gwerth cymdeithasol a chreu cymhwyster "amgylchedd adeiledig" newydd. | Datblygu opsiynau a chyngor i'r Gweinidog nesaf eu hystyried wrth gyhoeddi cynllun gweithredu ar Adeiladu. | Gwneud gwerth cymdeithasol yn ystyriaeth annatod yng ngham dylunio a phroses gaffael pob prosiect adeiladu a gyllidir gan Lywodraeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cael rhanddeiliaid perthnasol i ystyried sut y gallai’r cynllun gweithredu ar adeiladu fod yn berthnasol ar draws meysydd buddsoddi mewn adeiladu a seilwaith. | Cymru. Gwneir hynny trwy a) greu polisi traws-sectorol, b) sicrhau bod dyluniad / asesiad yn ystyried gwerth cymdeithasol c) datblygu hyfforddiant ar gyfer dylunwyr cynlluniau / timau caffael ac esbonio hyn wrth y diwydiant / eu hyfforddi yn y broses newydd d) rhoi’r broses fewnol ac allanol ar waith e) cysylltu yn ôl i’r WIIP ac WLG f) monitro a gwerthuso |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Cryfhau'r sector bwyd fel sector economaidd â blaenoriaeth yng Nghymru. | • Gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol i weld faint o fwyd o'r tu allan i Gymru y mae'r sector cyhoeddus yn ei brynu.<br><br>• Rhestru llinellau cynnyrch bwyd o Gymru a allai cyflenwi'r sector cyhoeddus.<br><br>• Asesu'r rhwystrau i ddefnyddio cynhyrchwyr lleol, nodi'r gwersi a ddysgwyd a'u defnyddio i chwalu'r rhwystrau (Gweithred 10)<br><br>• Llunio cynllun ar gyfer newid i ddefnyddio cynnyrch o Gymru, i'w roi ar waith yn y Senedd nesaf.<br><br>• Cael swyddogion perthnasol i ystyried pa mor ymarferol yw'r prosiect 'Coginio/Oeri' a ddatblygwyd gan randdeiliaid yn y sector cyhoeddus.<br><br>• Cefnogi prosiect i ymchwilio i'r system fwyd yng Nghymru i gytuno ar dargedau ar gyfer gwaith pellach a nodi'r gefnogaeth sydd ei hangen i | Cytuno ar gynllun tymor canolig i hir gyda chyflenwyr Haen Un i ehangu llinellau bwyd Cymreig ymhellach.<br><br>Os caiff y prosiect ei dderbyn fel cynnig ymarferol, ystyried opsiynau ar gyfer cefnogi'r prosiect Coginio/Oeri ac ystyried y cyfleoedd i ledaenu ac ehangu.<br><br>Dadansoddi'r sbardunau sydd ar | Datblygu trywyddau fyddai'n gwneud y galw yn amlwg ac yn fwy sicr yn y tymor hir, hynny i ennyn diddordeb cynhyrchwyr lleol. Hefyd ystyried pa gymorth sydd ei angen ar fusnesau i gael mwy o gynhyrchwyr lleol i ymuno â'r chadwyni cyflenwi bwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gynyddu cyfran y cynnyrch Cymreig yng nghadwyni cyflenwi'r archfarchnadoedd.<br><br>• Ystyried opsiynau ar gyfer lledaenu ac ehangu prosiect Cronfa Her Bwyd Sir Gaerfyrddin.<br><br>• Gweithio gyda rhaglenni bwyd y sector cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn lledaenu ac ehangu arferion da. | gael a disgrifio'r ymyriadau a gynigir.<br><br>Cael swyddogion polisi LIC i gefnogi'r gwaith lledaenu ac ehangu. | Cael rhanddeiliaid perthnasol i ystyried rhoi'r ymyriadau dan sylw ar waith. |
| 7 | Gofal Cymdeithasol | • Defnyddio rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth am yr hyn y dysgodd Cronfa Her Adolygu'r Economi Sylfaenol i ni ac am y cyfleoedd sy'n deillio o'r deuddeg prosiect gofal cymdeithasol.  Ystyried hefyd sut y gallent lywio newidiadau a gwasanaethau yn y dyfodol.<br>• Dod i ddeall blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol a'u cwmpasu ar gyfer eu halinio â'r Economi Sylfaenol. | Helpu i lywio cynlluniau'r rhaglen ar gyfer dyrannu £3m cyllideb yr Economi Sylfaenol. | Cynllun gweithredu i ystyried opsiynau perchnogaeth gofal preswyl |
| 8 | Coedwigo: Ystyried sut y gellid defnyddio tir yn well ledled Cymru yn y blynyddoedd i ddod i gefnogi rhai o amcanion hinsawdd y | • Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall ble y gallai'r rhwystrau fod ac a oes cyfleoedd i ddatblygu cynllun gweithredu traws-Lywodraeth ar goedwigo.<br><br>• Cynnal prosiect dichonolrwydd i ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio tir sector cyhoeddus i ddatblygu diwydiant domestig a allai cyflenwi pren adeiladu tai | Ceisio cytundeb i fwrw ymlaen â llunio cynllun gweithredu ar goedwigo, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth brosiectau'r | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | llywodraeth a'i huchelgeisiau cymdeithasol ac economaidd. | mwy cynaliadwy a sut y bydd hyn yn cefnogi'r defnydd effeithiol o dir i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd. | Gronfa Her gyda Chanolfan Cenedl y Goedwig a stiwardiaeth gymunedol ar goetir. | |
| 9 | PPE: Datblygu cadwyn gyflenwi ddibynadwy a chynaliadwy.  Helpu i greu cyflenwad sefydlog a dechrau'r broses o geisio nwyddau hanfodol sy'n gystadleuol, dibynadwy a chynaliadwy yn nes adref. | • Gwaith ar draws y Llywodraeth i sicrhau digon o PPE i gwrdd â'r angen/diffyg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd ansefydlogrwydd y galw a'r amharu a fu ar y cadwyni cyflenwi.<br>• Gweithio gyda busnesau gweithgynhyrchu lleol i gynhyrchu digon o PPE i ddiwallu gofynion GIG/Gofal Cymdeithasol a staff rheng flaen eraill Cymru.<br>• Gweithio i helpu i greu cyflenwad sefydlog a dechrau'r broses o geisio nwyddau hanfodol sy'n gystadleuol, dibynadwy a chynaliadwy yn nes adref. | Ceisio cytundeb i fynd â'r gwaith yn ei flaen gyda rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat allweddol. | Datblygu opsiynau ar gyfer ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn y gwaith caffael yn lleol mewn categorïau gwariant eraill. |
| 10 | Gweithio i chwalu'r rhestrau i gontractau cyflenwi'r sector cyhoeddus: | • Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd ynghylch bwyd a PPE i weld sut i ddelio â rhwystrau megis achredu, cystadlu yn y farchnad ac o ran pris, yr amgylchedd a'r broses gaffael. Dyma'r rhesymau yn ôl cyflenwyr sy'n fusnesau bach a chanolig o Gymru dros beidio â chaffael i'r sector cyhoeddus<br>• Gweithio gyda rhanddeiliaid o weld a oes modd i'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol a'r Ddyletswydd Gaffael helpu i leihau rhai o'r rhwystrau hyn | Cyflwyno cynigion ar gyfer ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd ar draws sectorau a chategorïau gwario. | Cynllun tymor canolig i hir o ymyriadau polisi ar draws y Llywodraeth a chefnogaeth i fusnesau allu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Dysgu gwersi prosiectau'r Gronfa Her a phrofiad gwaith CLES ar gaffael blaengar i ddatblygu system gaffael gydweithredol i gefnogi'r ES a sbardunau polisi cymdeithasol eraill. | | chwalu'r rhwystrau i gaffael cyhoeddus. |